

❖ **Y MESEIA - DDIM YN DOD?***Selot***Darllen: Salm 24:7–10****Myfyrdod**

Y Meseia – ddim yn dod?
 Peidiwch â gwneud i mi chwerthin!
 Wrth gwrs ei fod yn dod,
 a fydd hi ddim yn hir, credwch chi fi.
 Sut y gwn i?
 Wel, mae'n amlwg!
 Edrychwch o'ch cwmpas ar gyflwr ein byd –
 cyflwr ein cymdeithas,
 y llygredd,
 y trachwant,
 yr hunanoldeb;
 y cwbl yn groes i ewyllys Duw –
 ydych chi'n credu ei fod am ganiatáu i hyn barhau?
 Ni allaf fi gredu hynny.
 Na, efallai fod yr oedi yn anodd ei ddeall,
 ond yn hwyr neu'n hwyrach
 daw dydd yr Arglwydd;
 a dyna ddydd fydd hwnnw,
 dydd bythgofiadwy i bawb!
 Byddwn yn rhydd o'r diwedd,
 yn oleuni yn hytrach na thestun gwawd i'r cenhedloedd,
 yn bobl fydd yn teyrnasu yn hytrach na thaeogion,
 oherwydd pan ddaw,
 daw'r alwad i godi arfau,
 clywir sain utgyrn yn ein galw i'r frwydr
 ac ymlaen i fuddugoliaeth.
 Onid dyna ei addewid? –
 teyrnas newydd,
 dechreuad newydd,
 gwaredigaeth o gaethiwed –
 yn wir, rwy'n cyfrif yr oriau.
 Dychmygwch yr olygfa os medrwch:
 Iesu a Pheilat benben â'i gilydd,
 llywodraethwr Rhufeinig yn erbyn Brenin yr Iddewon –
 bydd hynny'n werth ei weld!
 Oni bai fy mod yn ei gasáu gymaint,
 buaswn yn tosturio wrth Peilat o dan yr amgylchiadau;
 fydd ganddo ddim syniad beth fydd wedi ei daro,
 ei fyddinoedd yn ddi -rym yn erbyn llaw yr Arglwydd.
 Beth wnaiff e tybed?
 Troi a gwingo, mae'n siŵr,
 a hyd yn oed ceisio golchi ei ddwylo o'r cyfrifoldeb,
 ond ni fydd dianc y tro hwn,
 dim ffordd i osgoi'r farn derfynol.
 Cofiwch, sôn yr ydym am Eneiniog Duw,
 yr un a ddaw i sefydlu cyfiawnder a heddwch.
 Ni bu'r disgwyl yn hawdd,

ond addawodd Duw ei waredigaeth,
ac y mae ef bob amser yn ffyddlon i'w air.
Felly, peidiwch â dweud wrthyf nad yw'n dod.
Dim ond mater o amser ydyw bellach;
y mae gwawr y deyrnas newydd ar dorri.
Does ond gobeithio y byddaf o gwmpas pan ddigwydd;
bydd yn werth disgwyl, does dim amheuaeth –
ni fydd o'r byd hwn!

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
er i ni honni dy wasanaethu,
ofnwn fod gennym fwy o ddiddordeb gwasanaethu ein hunain.
Yn hytrach na gwrando arnat ti,
yr ydym yn barotach i wrando ar ein mympwyon ein hunain.
Yn hytrach na cheisio dy ewyllys di,
dilynwn ein llwybrau ein hunain,
gan ddisgwyl i ti gydymffurfio â'n disgwyliadau.
Maddau i ni, O! Arglwydd,
am gau ein llygaid i'th bresenoldeb bywiol.
Maddau ein gweledigaeth gyfyng
a helpa ni i'th gyfarfod fel yr wyt mewn gwirionedd.
Boed i ni d'adnabod,
dy garu a'th wasanaethu
heddiw a phob amser,
er gogoniant dy enw.

Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies